Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Teams **ar 21 Hydref 2024** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:-** Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gareth Parry (Cadeirydd) Cyng. Medwyn Hughes (Dirprwy Faer), Cyng. Steve Bell, Cyng. Dylan Fernley, Cyng. Elin Walker Jones, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. John Wynn Jones (gadawodd am 7.30 pm), Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts (gadawodd am 8.10 pm), Cyng. Gwynant Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Lisa Toth, Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Carwyn Davies (Swyddog Gweinyddol) a Sioned Jones (Cyfieithydd) a thri Aelod o'r cyhoedd.

**64/24 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Simon Hibbs, Cyng. Beverley Jones, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance a'r Cyng. Delyth Russell.

**65/24 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**
Dim

**66/24 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Cafodd y Cyngor gyflwyniad gan Ymddiriedolaeth Treftadaeth Menai yn manylu ar hanes a phwysigrwydd lleol Pont Menai ac yn esbonio y bydd yn ddau gan mlwydd oed yn 2026. Mae'r Ymddiriedolaeth yn bwriadu coffau'r garreg filltir hon a gofynnwyd a fyddai Bangor yn dymuno dathlu'r digwyddiad hefyd.

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd sesiwn holi ac ateb. Diolchodd y Cyngor i gynrychiolwyr yr Ymddiriedolaeth am y cyflwyniad diddorol ac addysgiadol.

**67/24 CYMERADWYO COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR AR 9 MEDI 2024.**
**PENDERFYNWYD:** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Medi gydag un mân newid.

**68/24 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**
*Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod.*
Roedd adroddiad y Cyfarwyddwr Dinesig, a oedd yn manylu ar fentrau a phrosiectau'r Cyngor, wedi'i gylchredeg ymlaen llaw cyn y cyfarfod. O'r eitemau yn yr Adroddiad, tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Cyngor at y canlynol:

i) Cynhelir coffâd traddodiadol Sul y Cofio ar y 10fed o Dachwedd eleni. Adroddwyd bod y paratoadau yn mynd yn dda a gofynnwyd i'r Cynghorwyr fod yn Neuadd y Penrhyn erbyn 9.30 am. Yn dilyn y gwasanaeth bydd lluniaeth ysgafn yn cael ei weini yn Neuadd y Penrhyn.

ii) Bydd coffâd byr hefyd ar Ddiwrnod y Cadoediad, 11 Tachwedd, pan fydd yr Arglwydd Raglaw yn gosod torch wrth y Gofeb Ryfel.

iii) Dywedodd y Cyfarwyddwr Dinesig ei fod, ers y cyfarfod diwethaf, wedi mynychu Cynhadledd Genedlaethol undydd Un Llais Cymru. Roedd y Gynhadledd hon yn arwyddocaol gan ei bod yn coffáu 50 mlynedd ers ad-drefnu llywodraeth leol ac 20 mlynedd ers sefydlu Un Llais Cymru. Roedd hefyd wedi mynychu Cynhadledd Genedlaethol ddeuddydd yr SLCC. Roedd y neges gan y ddwy gynhadledd yn

debyg, sef 'paratoi ar gyfer newid'. Dywedwyd bod Un Llais Cymru yn canolbwyntio ar newidiadau i gyfrifoldebau Cynghorau Tref a Chymuned yn sgil y toriadau ariannol ar lefelau Awdurdodau Unedol a oedd yn arwain at lwythi gwaith cynyddol, a thema'r SLCC oedd y newidiadau i arferion gwaith ac amgylcheddau a fyddai'n dod yn sgil technolegau newydd a deallusrwydd artiffisial, yn ogystal â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth.

iv) Roedd Bangor yn Gyntaf (BID gynt) wedi cadarnhau, ers y cyfarfod diwethaf, y byddai'n cyfrannu at y Goleuadau Nadolig eleni. Ar y pwnc hwn, adroddwyd bod Gwynedd bellach wedi egluro na ellid defnyddio rhai o'r Goleuadau Nadolig a dderbyniwyd yn barod ar Ffordd Caernarfon.

v) O fewn yr wythnos ddiwethaf, roedd y Cyngor wedi cael gwybod bod Age Cymru yn dymuno terfynu ei gytundeb rhyngddo â Chaffi Hafan.

**69/24 DERBYN YR ADRODDIAD CYLLIDEB 6 MIS YN ERBYN GWARIANT GWIRIONEDDOL.**

*Roedd yr Adroddiad Cyllideb 6 Mis yn erbyn Gwirioneddol wedi'i gylchredeg ymlaen llaw i'r Aelodau*

Hysbyswyd y Cyngor bod Pwyllgor Cyllid y Cyngor wedi craffu ar Yr Adroddiad Cyllideb 6 Mis o'i gymharu â'r Gwariant Gwirioneddol a'i fod wedi argymell ei dderbyn. Atebwyd ychydig o gwestiynau byr am eitemau'r gyllideb gan y Cyfarwyddwr Dinesig.

**Penderfynwyd:** derbyn yr Adroddiad Cyllideb 6 Mis yn erbyn Gwirioneddol.

**70/24 CYMERADWYO DEISEB SIAN GWENLLIAN I GAEL YSGOL DDEINTYDDOL YM MANGOR.**

*Roedd manylion y ddeiseb a geiriad y cynnig wedi'u dosbarthu ymlaen llaw i'r Aelodau*

Mae crynodeb o'r cynnig fel a ganlyn: 'Fod y cyngor hwn yn cymeradwyo

- Y galw cynyddol am weithwyr deintyddol proffesiynol ledled Cymru, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, lle mae mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG yn gynyddol gyfyngedig.
- Yr angen dybryd i ehangu cyfleoedd hyfforddi i ddeintyddion yng Nghymru, er mwyn gwella gwasanaethau iechyd deintyddol a mynd i'r afael â phrinder gweithlu yn y rhanbarth.

. . .

**Penderfynwyd:** cymeradwyo'r ddeiseb am Ysgol Ddeintyddol.

**71/024 ADOLYGU NIFEROEDD Y PWYLLGOR STAFFIO**

Roedd Pwyllgor Staffio'r Cyngor yn cynnwys chwe Aelod ac, yn dilyn trafodaeth fer pan esboniwyd bod y Cynghorydd Roberts yn aelod o'r Pwyllgor Staffio, cynigiwyd y byddai ychwanegu dau Aelod arall yn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei gyfrifoldebau.

**Penderfynwyd:** penodi'r Cyng. Eirian Williams Roberts a'r Cyng. John Wyn Williams i'r Pwyllgor Staffio.

**72/24 PENODI RHEOLWR/TREFNYDD HWB CYMUNEDOL RHAN-AMSER.**

Trafododd y Cyngor fanteision a goblygiadau cost penodi rheolwr neu drefnydd penodol ar gyfer yr Hwb Cymunedol.

**Penderfynwyd:** gofyn i'r Pwyllgor Staffio baratoi manyleb ar gyfer y rôl hon a dadansoddi'r goblygiadau cost.

**73/24 CEFNOGI'R PROSIECT FFAGLAU DATHLU BUDDUGOLIAETH YN EWROP (VE)**

*Roedd manylion y Prosiect Ffaglau Cenedlaethol wedi'u dosbarthu o flaen llaw i'r Aelodau*
Yn dilyn trafodaeth fanwl am y prosiect hwn ac a oedd yn coffáu diwedd rhyfel neu ddechrau heddwch, dadleuwyd y byddai llawer o bobl yn y Ddinas yn hoffi i'r digwyddiad gael ei goffáu, tra nad oedd angen i'r rhai oedd yn gwrthwynebu, fod yn bresennol.
**Penderfynwyd:** cefnogi'r Prosiect Cenedlaethol.

**74/24 CHWILIO AM DREF YN ARDALOEDD CELTAIDD EWROP I EFEILLIO Â BANGOR.**
Cynigiwyd, yn dilyn y penderfyniad diweddar i gymeradwyo datganiad ffurfiol o gyfeillgarwch â Roche-La-Moliere yn Ffrainc a May Pen yn Jamaica, y dylai'r Cyngor ddechrau ymdrechion i ganfod lleoliadau mewn ardaloedd Celtaidd y gallai'r Ddinas feithrin dolenni diwylliannol agosach â nhw.
**Penderfynwyd:** cymeradwyo chwilio am leoliadau mewn ardaloedd Celtaidd yn Ewrop er mwyn meithrin cysylltiadau diwylliannol agosach.

**75/24 CYMERADWYO'R CYNNYDD YNG NGHOSTAU CYNNAL A CHADW CCTV CYNGOR GWYNEDD**
*Roedd manylion costau cynnal a chadw arfaethedig Teledu Cylch Cyfyng Cyngor Gwynedd i Gyngor y Ddinas ar gyfer 2025-2026 wedi'u cylchredeg ymlaen llaw.*
Roedd y gost arfaethedig ar gyfer cynnal a chadw TCC y Ddinas yn 2025-2026 bron i 50% yn uwch nag ar gyfer y flwyddyn gyfredol. Eglurwyd hyn yn rhannol gan gynnydd mewn camerâu ym Mangor dros y deuddeg mis diwethaf. Fodd bynnag, adroddwyd bod costau hefyd wedi codi'n sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw.
**Penderfynwyd:** i ) gofyn am fanylion lleoliad pob camera ym Mangor,
ii) gofyn i Wynedd a allai Cyngor y Ddinas gael rhan mewn penderfynu ar leoliad y camerâu hyn;
iii) gofyn am ddadansoddiad o'r cynnydd mewn costau.

**76/24 CAIS CYNLLUNIO**
**i.** Cais cynllunio C24/0782/11/TC - 49 Ffordd Caergybi, Bangor – Cais am Dystysgrif Datblygu i gadarnhau defnydd fel 3 fflat ar wahân.
**Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.**

**ii.** Cais cynllunio C24/0813/11/CR – 252 Stryd Fawr – Newidiadau mewnol i greu un tŷ annedd.
**Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.45pm**
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR